**Jack Sargeant AS/MS**
**Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol**
**Minister for Culture, Skills and Social Partnership**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

26 Mehefin 2025

Annwyl Llywydd,

Ysgrifennaf atoch yn eich rhinwedd eich swydd fel Llywydd a Chadeirydd Comisiwn y Senedd ynghylch y Bil Hawliau Cyflogaeth.

Nod y Bil Hawliau Cyflogaeth yw cyflawni'r diwygiadau deddfwriaethol allweddol a nodir yng nghynllun 'Plan to Make Work Pay' Llywodraeth y DU. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod tri memorandwm cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil erbyn hyn.

Fel y nodir yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol cyntaf, mae Cymal 26 o'r Bil adeg ei gyflwyno (Cymal 31 bellach, yn y fersiwn o'r Bil a ddygwyd i Dŷ'r Arglwyddi o Dŷ'r Cyffredin) yn mewnosod adran newydd 78A yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r cymal hwn yn galluogi gwneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr a chyrff cyhoeddus penodol baratoi a chyhoeddi "cynllun gweithredu cydraddoldeb" sy'n ymdrin â materion cydraddoldeb rhywedd.

Yn wahanol i gyrff cyhoeddus datganoledig eraill yng Nghymru, mae Comisiwn y Senedd o fewn cwmpas y cymal hwn. A hynny oherwydd bod Comisiwn y Senedd wedi'i restru o dan Ran 1 o Atodlen 19 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn gyson â rhestru Corff Corfforaethol Seneddol yr Alban o dan Ran 1.

Dylid nodi na all Gweinidogion Cymru osod dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb ar Gomisiwn y Senedd drwy adran 153(2) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. A hynny oherwydd nad yw Comisiwn y Senedd wedi'i restru yn Rhan 2 o Atodlen 19 i'r Ddeddf honno.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jack.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Jack.Sargeant@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O ganlyniad, ac fel y nodir yn fy llythyr dyddiedig 30 Ebrill at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y cawsoch gopi ohono, mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol i Gomisiwn y Senedd fod o fewn cwmpas y ddarpariaeth hon yn y Bil. Gall Llywodraeth y DU eisoes wneud rheoliadau ar faterion cydraddoldeb sy'n berthnasol i Gomisiwn y Senedd o dan adran 153(1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Yn eich llythyr dyddiedig 13 Chwefror at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad, nodwyd nad oedd Comisiwn y Senedd wedi derbyn unrhyw gyswllt gan Lywodraeth y DU ynghylch y ddarpariaeth hon yn y Bil. Fe wnaethoch fynegi eich bod ffafrio diwygio'r Bil i ddynodi Comisiwn y Senedd fel ymgynghorai statudol.

Er fy mod yn gwerthfawrogi eich barn, byddai dynodi Comisiwn y Senedd yn y modd hwn ar wyneb y Bil yn anghyson â'r dull a gymerwyd mewn perthynas â chyrff eraill a restrir o dan Ran 1 o Atodlen 19 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Fodd bynnag, rydym mewn cysylltiad rheolaidd â Llywodraeth y DU ynghylch y Bil ac rwyf wedi gofyn i'm swyddogion bwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu â Chomisiwn y Senedd mewn unrhyw waith yn y dyfodol sy'n ymwneud â chynlluniau gweithredu cydraddoldeb.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir



**Jack Sargeant AS/MS**
Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol
Minister for Culture, Skills and Social Partnership